**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol**

—

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565

—

**Senedd Cymru**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Dafydd Rhys
Prif Weithredwr
Cyngor Celfyddydau Cymru

19 Chwefror 2024

## Cymorth Pontio Adolygiad Buddsoddi

Annwyl Dafydd,

Ysgrifennaf atoch yn dilyn ein hystyriaeth, o ohebiaeth ar 8 Chwefror 2024 gan Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth ynghylch dyfodol National Theatre Wales. Yn y llythyr hwnnw, dywedodd y Dirprwy Weinidog:

> *"... mae Cymorth Pontio ar gael i sefydliadau presennol ym Mhortffolio Celfyddydol Cymru, gan gynnwys National Theatre Wales, a fu'n aflwyddiannus yn eu cais yn yr Adolygiad Buddsoddi hwn. Mae'r cymorth hwn yn cynnwys cymorth ariannol ac yn cynnig cyngor ac arbenigedd ychwanegol a phenodol i helpu'r sefydliadau i addasu i beidio â derbyn eu cyllid blynyddol craidd mwyach."*

Byddem yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau:

1. Faint o arian y mae Cyngor y Celfyddydau wedi'i ddyrannu ar gyfer cyllid pontio;
2. Faint o geisiadau sydd wedi'u gwneud am gyllid pontio;
3. Beth mae "cyngor ac arbenigedd ychwanegol a phenodol" yn ei gynnwys;
4. Faint o geisiadau sydd wedi'u gwneud am gyngor o'r fath;
5. Pryd y bydd penderfyniadau ar geisiadau am gyllid pontio yn cael eu gwneud;
6. Pryd y bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael cyllid pontio?

Edrychwn ymlaen at gael eich ymateb.

Yn gywir,



**Delyth Jewell AS**
**Cadeirydd y Pwyllgor**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.